Archwilio Cymru
Audit Wales

# Twyll yn y GIG – Sgwrs gyda Ben Rees, Pennaeth Gwasanaethau Atal Twyll Lleol, Bwrdd Iechyd Hywel Dda

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Helo, this episode will be in Welsh. If your Welsh isn't up to following along then we are completely fine with you skipping to the next one.

Helo a chroeso i'r Gyfnewidfa, podlediad wedi'i gynhyrchu gan Archwilio Cymru.

Siôn Owen ydw i a dwi'n gweithio i'r Gyfnewidfa Arfer Da. Archwilio Cymru ydy'r corff sy'n gyfrifol am archwilio'r sector gyhoeddus ddatganoledig yn ariannol ac o ran perfformiad.

Ma' hynny'n cynnwys y Cyngor Cymuned lleiaf a Llywodraeth Cymru, a phob corff arall sydd rhwng y ddau begwn yma.

Ma'r bennod yma yn trafod twyll yn y sector gyhoeddus. Ma' twyll a gwallau ariannol yn broblem barhaus i'r sector gyhoeddus ac mae'n bosib, yn ôl amcangyfrif awdurdod tywyll y sector gyhoeddus, fod o leia tri deg tri biliwn o bunnoedd o arian cyhoeddus yn cael 'i effeithio bob blwyddyn ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae o'n faes sy ddim yn cael llawer o sylw, ond o weithio'n effeithiol mi fydd yn talu ar ei ganfed gan atal cyllid rhag disgyn allan o gyrff cyhoeddus a alla' gael 'i wario er mwyn gwella llesiant.

Er mwyn dysgu mwy am y maes yma, fu i fi drefnu sgwrs gyda Ben Rees, Pennaeth Atal Twyll Lleol ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda, gan gyfarfod yn ei swyddfa yng Nghaerfyrddin.

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
So, Ben Rees, fi yw Pennaeth Adran Atal Twyll i Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a fi 'di bod 'ma nawr ers 2017, ia, 10 blwyddyn, flwyddyn nesa decade 'co.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
A sut ma' hyn yn teimlo?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Mae'n tipyn o gwahanieth. Des i o Heddlu De Cymru i gweithio fan hyn, so ie oedd tipyn o newid rhwng gweithio shifts ar y front line i gweithio mewn swyddfa yn y bwrdd iechyd tipyn, o gwanieth rhwng.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Oedd 'na bennod gyfatebol yn Saesneg i hon a oedd pawb sy'n gweithio yn maes tywyll yn arfer bod yn heddlu yndyn?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ie, ma' hwnna'n wir. Ma' tipyn o mae llwytho ni o'r oedd heddlu a achos ‘ny ni 'di dod yn eitha dda yn Cymru i wneud criminal investigations de achos ‘ny ond hefyd wedyn ti'n fflipo hwnna: Oes 'na gwendid rhwng data analytics a byddwn i'n gweud ‘na ble ma' isie ni datblygu hefyd yn yr GIG de.

Falle yn y public sector neu bach yn gwahanol ond yn y GIG ie ma' hwnna'n yn wir i adran fi de bod angen bach mwy o cymorth o ran o'r pobl sy'n gweithio gyda'r finance i helpu ni gyda'r data analytics stwff yna so ar un llaw mae'n helpu cael yr profiad o bod yn heddlu ond hefyd wedyn ni ar yr un pryd ni'n gwbod pryd ma' angen help wneud cwpl o bethau eraill i wneud y swydd de.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Ia achos ma' ma' data analytics yn mynd yn faes mwy ac yn fwy ag arbennigol yn dydi?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ydi ma'r pethau wedi newid yn y 10 mlynedd diwetha arno fe a faint o gwybodaeth ni'n casglu hefyd sy'n gallu defnyddio er mwyn ie helpu ni ffeindio'r gwendid de.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Ie adnabod y risgiau a gweld ma' dim bod efo'r data yn risg dydi. So, sôn am risgiau. Be 'di risgiau mwyaf sy'n codi o dwyll falle sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yng Nghymru?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
So yn y GIG de rydyn ni'n wynebu’r un math o risgiau a gweddill y sector cyhoeddus a hynny yw camddefnyddio adnoddau twyll yn ymwneud â procurement de: Twyll i wneud gyda staff a'r un amlwg ar y foment yw'r staff sy'n gyda ail swydd falle a wedi gweithio pan maen nhw off gwaith yn dost a risgiau sy'n dod gyda symud gwasanaethau mewn i'r byd digidol de sort of digital transformation sy'n digwydd de a risg sy'n dod gyda hwnna. Ma' rywbeth o enw National Fraud Initiative neu NFI a ma' hwnna wedi dangos bod llawer o dwyll neu error ar draws y cyrff cyhoeddus yn Gymru ond i ni, beth ni 'di ffeindio o NFI yw falle mwy o twyll i wneud gyda beth ni'n galw Payroll related neu procurement.

Nawr beth ni'n edrych ymlaen mewn i nawr blwyddyn nesa yn yr annual work plan bydd ni'n ffocysio hwnna ar beth yw'r trends a'r risgs ni 'di gweld yn y blwyddyn diwethaf a falle bach mwy o proactive approach i delio gyda fe blwyddyn nesa wedyn 'ny a bydd hwnna'n helpu ni gweld ble dyle ni ffocysu arno a ble ni'n mynd fel adran at y twyll wedyn 'ny.

Ond yn yr NHS yn benodol ie twyll hunaniaeth mewn presgripsiynau hefyd neu fynediad at wasanaethau, ni'n gweld hwnna'n mynd yn fwy yn ystod falle yr haf neu yn ystod rhai rhai adegau o'r flwyddyn de pryd ma'r population yna'n yn mynd fwy o seis achos, ie, movement o bobl ar draws Cymru de.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Maen nhw'n dod yma i aros.

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ie.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
A maen nhw'n mynd yn sal 'ma.

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ie, ie, fel tourism yn effeithio rhai gwasanaethau ni wedyn 'ny, so o'n i'n gwbod hwnna, a wedyn ma'n bwysig i ni bod yr prosesu ni yn digon da i delio gyda hwnna hefyd

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Yndy Achos ma' poblogaethau llywodraeth arfordirol yn dyblu dros nos a ballu, dydi?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ie, gwahaniaeth yn yr arfer a gweud nawr yn Lloegr, maen nhw'n talu am prescriptions yn Cymru, ni'n cal nhw am ddim, a mae angen mynd i wneud siŵr bod ein prosesau ni'n delio gyda hwnna na beth o'n i'n meddwl
pan ma' y tourism yn dechrau effeithio hwnna wedyn 'ny achos ma' pobl dal angen prescriptions pan maen nhw ar gwyliau yn Cymru. Fel aelod o'r cymuned fy hunain ti'n meddwl bod y NHS, fi'n gallu cyrraedd un gwasanaethau yn Cymru na beth fi'n cael yn yn Lloegr a mae'n bwysig bod ni'n rhoi gwybod i pawb beth yw'r rheolau a fel ni'n delio gyda hwnna wedyn 'ny.

Bod yn deg i pawb a deg i ni fel bwrdd iechyd hefyd.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Ie achos yn y pen draw edrych ar ôl eich hunan ydyw e?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ie.

Mae un thema newydd wedi dod lan ers Covid a hynny yw'r risg i wneud gyda, fi byth yn gallu gweud y gair yn iawn, polygamous working.

Mae'n rhywbeth sydd wedi cael ei creu yn ddiweddar. Sef pobl yn gweithio mwy na un job ar yr un pryd, ond ma' jobs 'na'n llawn amser.

Oedd achos diweddar lan yn Gloucestershire, ble oedd aelod o'r cyngor yn fan'na, oedd gyda fe tri swydd llawn amser, a oedd e'n gwneud job tri person, ond beth wnaeth e oedd o'n rhoi timesheets mewn yn gweud oedd e'n gweithio 3 job ar yr un pryd.

So oedd y timesheets 'na wedyn 'ny yn twyll yn y ffordd o'n nhw ddim yn iawn; ti ffaelu gweithio 3 job dros rhwng 9 a 5 pob dydd Llun i dydd Gwener a 'na ble ma' pobl yn cael eu dala mas wedyn 'yn. Ond ie felly blwyddyn nesa bydd raid i ni fel GIG de edrych mewn i hwnna mwy manwl de a gwneud yn siŵr bod prosesu ni'n cyfro'r ffaith bod ni'n gweud wrth staff beth mae nhw'n gallu ei wneud.

Os ma' 'na mwy na un swydd bydd ni'n pwysleisio'r ffaith bod rhaid chi roi beth 'y ni'n gweud Declaration of Interest mewn ar ôl Secondary Employment a ni fel bwrdd iechyd wedi ein cefnogi nhw i wneud y peth iawn ar amser iawn de.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Ia jyst wneud siŵr bod pobol yn dilyn y rheolau 'dio de. Wedyn, achos ma' taclo tywyll mewn un ffordd jyst yn bres, ti'm yn gorfod safio rywle arall, dydi?

Ond eto mi weli di weithia' bobl yn enwedig, dwi'n gweithio i'r corff archwilio, 'da ni'n hynod o 'keen' ar betha' fatha atal tywyll a cael bobl i ddilyn y prosesau'n iawn a ballu achos dyna maen nhw fod i wneud.

Ond eto ma' angen dod i ryw fath o gydbwysedd rhwng atal twyll a cael gwneud y gwaith a darparu'r gwasanaeth does?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Yn union ie.

So fel ni'n dod drosto hwnna de, so yn y GIG Cymru ni'n trio wneud pethau yn rhagweithiol, gan integreddio rheolaethau twyll i brosesau pob dydd yn hytrach na chreu mwy o gwaith i bobl ar y front line de.

Mae'r safonau gwrth-dwyll yng Nghymru yn gofyn i'r GIG i gynnwys rheoli risg twyll, codi ymwybyddiaeth ac ymchwilio fel rhan o lywodraethu arferol, mae hynny'n cynnwys rhannu data trwy NFI, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac adnabod gwendidau'r gynnar ond heb wneud bywyd gwaith y staff rheng-flaen yn anodd.

So beth chi'n gweud, fel chi'n aml yn clywed yn y gymuned sef prevention is better than cure de a'r un peth ni'n gweud yn adran twyll rŵan; ma'n lot rhwyddach i ni ymdopi prosesu ar y dechrau trwy gweithio gyda adrannau er mwyn rili embed-io prosesau counter-fraud yn y pethe pob dydd a wedyn trwy wneud 'ny ni'n rhoi'r hyder i'r staff i cael yr meddwl atal twyll o'r dechrau. Maen nhw'n rhoi hwnna mewn i popeth maen nhw'n wneud wedyn a mae jyst yn dod rhan o bywyd wedyn 'ny a ni'n gweud ie.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
So ma’u llygaid nhw'n agored i dwyll a patrymau tywyll jyst fel beth sy'n normal iddyn nhw ella?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ydi ie a beth o'n i'n gweud bod o'n cydweithio, ma' hwnna'n allweddol iawn.

Ma' siŵr mae'r peth mwya’ pwysig yw'r ffaith bod ni'n gallu cydweithio dim jyst gyda pobl ni'n gweithio gyda pob dydd lot o'n cydweithwyr, ond hefyd adran fel internal audit a procurement ma' adran nhw yn y gwasanaethau atal twyll Cymru yn eistedd uwchben ni fel bwrdd iechyd, a ni'n gweithio gyda nhw i datblygu ac i hyrwyddo dull fel Once for Wales de.

So oedd hwnna hefyd yn eitha bwysig bo' ni ddim yn dyblgu gwaith ni, a bod mewn silos bo' ni'n gweithio gyda'n gilydd a gobeithio creu llai o gwaith i pobl trwy wneud ‘ny hefyd.

Yym, ie, a ma'r Once for Wales approach, ma' hwnna'n rili bwysig, dim jyst mewn adran atal twyll ond dros y GIG i gyd yw e.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
So be 'di Once for Wales wedyn?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
So beth 'y ni'n wneud trio wneud yw bod ni, yn lle jyst edrych arna sut gall hwnna helpu pobl Hywel Dda, byddwn ni'n meddwl sut gall hwn helpu Cymru i gyd, beth allwn ni wneud fel ein bod ni'n gwneud y gwaith unwaith, ond cael gwybodaeth neu data wrth pawb yng Nghymru a’i wneud e, achos ni'n tueddu i ddilyn yr un polisïau dros Gymru i gyd, yn enwedig yn y GIG, a achos ‘ny, ma'r risks tueddu i fod yr un peth, a mwy bwysig, ma'r controls tueddu i fod yr un peth.

So os ni'n mynd i wneud un pisyn o waith yn Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ydyn ni’n gallu wneud hwnna ym mhob man a bydd hwnna'n yn arwain ni i safio lot o waith, a ar yr un pryd, ni'n cael mwy o value mas o'r gwaith 'na hefyd wedyn 'ny.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Ia a ma' hynna, a minna’n gweithio i'r Gyfnewidfa Arfer Da yn trio annog hynna. ‘Da ni ni'n licio clywed hynny a achos does na ddim pwrpas mynd i ail-ddyfeisio'r olwyn bob tro ti'n dod at y broblem.

Nes ti 'di gyffwrdd ar yr NFI gwpwl o weithiau ma' hwnna hefyd yn rhan arall mawr o'r cydweithio dydi?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ydi ond ma' NFI wedyn 'yn, beth ma' nhw'n wneud hefyd ma'n agor drysau ni i cael y sgyrsiau 'na ambiti twyll gyda'r Cynghorau, gyda'r ie cwmnïau eraill de dros Cymru a dros Brydain ddim dros Cymru ie a be ti'n aml yn gweld bod pawb,

yn enwedig yn yr public sector de maen nhw'n gweld yr un problemau, nhw'n gweld yr un risks ie so gallwn ni dysgu wrth ein gilydd hefyd.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Wel ia, fel ti newydd ddeud, dan ni'n aml yn gweithio i'r un rheoliadau, dan ni dan rhai fwyaf o'r un ddeddfwriaeth yng Nghymru, mae o'n wahanol yn Lloegr, ond a dan ni efo'r un Controls a lot o'r un problemau, felly mae jyst yn gwneud sens i ni siarad efo'n gilydd dydi?

Dach chi 'di dod ar draws rhwystra i atal rhannu gwybodaeth a ballu ta dach chi 'di dod i ddallt eich gilydd yn reit dda fan'na?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ie so ma' ambell i barrier de ond gallet ti dod drosto hwnna trwy cael cytundeb yn ei le de i rannu'r data 'na.

A beth ni 'di gweld yn lleol ni 'di edrych yn ddiweddar fel ni'n gweithio gyda'r cyngor lleol. So yn Hywel Dda rownd ni de ma' Sir Gâr Caerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

A fi, fel pennaeth adran, rwy'n edrych mewn i sut gallwn ni tibod gwella'r perthynas sy gyda ni fel pedwar. So beth ni'n edrych i wneud nawr bydd i cwrdd lan gyda nhw; yr pobl sy'n gweithio yn yr adran adrodd twyll yn y cyngor.

Cwrdd a nhw dwi'n meddwl falle dwy waith y flwyddyn er mwyn trafod beth ni'n gweld o ddydd i ddydd a beth sy'n effeithio ni fel cwmni a sut gallen ni helpu'n gilydd a o ran ni wedyn ni falle creu ryw fath o memorandum of understanding a cael bach o cytundeb yn lle i helpu ni helpu'n gilydd de yym a bydden ni'n wneud hwnna trwy'r information governance a polisiau lleol, ond y peth pwysig fi'n credu ma' barriers ond gallet ti dod dros yr rheina jyst trwy siarad a cael y perthynas yna gyda'n gilydd a cael yr un mindset.

Ni gyd 'ma yn wneud yr un job. Prif swydd fi yw i wneud siŵr bod arian cyhoeddus ddim yn mynd mewn i pocedi'r criminals de.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Fod o'n mynd i lle ma' fod 'lly.

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ie a ma'r arian yn cael ei hala ar beth dyle fe cael ei hala arno a os bydden ni moyn gweud un o'r prif thema heddi yw hwnna bod rili job ni yw wneud siŵr bod arian yn mynd ble dyle fe mynd a job ni yw i roi digon o steps neu barriers o flaen pobl sy'n moyn dwyn arian wrth y GIG de.
A ie a ni gyd moyn gwneud yn siŵr fod ni ddim yn colli arian, ac o weud colli os ti'n colli fe, ma' rywun yn tueddu i fod yn dwyn e. Ond, 'sdim pob peth ni'n edrych i mewn i, wneud ymchwil i mewn i de, popeth ddim yn trosedd.

Mae rhai pethau yn timod ma' errors yn digwydd a mae'n bwysig bod ni'n stopio'r errors yna hefyd a dysgu trwy beth ni'n wneud de.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Wel ia achos os 'di pres yn gollwng allan trwy dwyll a camgymeriadau a ballu, yna mewn cyfnod lle dan ni dal yn gorfod bod yn ofalus iawn sut ma' sector gyhoeddus yn gwario pres ac yn y blaen.

Os dach chi ddim yn gorfod safio'r pres yna sy 'di gollwng allan o'r system, wel gorau oll ynde.

Ti'n gweld hwnna fatha rhan o rôl arweinwyr a ballu wrth greu diwylliant ac yr cyfathrebu rhwng sefydliadau ac yn y blaen?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ma' bydd ma' rywbeth yn lle os chi'n gwglo NHS fraud neu unrhyw beth fanna a chi'n gofyn edrych ar un o'r prif pwyntiau er mwyn datblygu yym Counter fraud culture mewn busnes de.

Mae'n rili bwysig bod ti gyda'r be chi'n galw'r top-down approach a ma'r llywodraeth yn gweud, ma' rhaid i chi gael prosesu yn lle i atal twyll de yn y GIG.

Ond nhw sy'n gosod wedyn 'ny y tone from the top trwy gymeradwyo strategaethau, gwrth-dwyll, sicrhau adnoddau ar gyfer atal twyll lleol a rhoi adroddiadau rheolaidd i'r bwyllgorau llywodraethiant.

O ran y tôn from the top mae'n bwysig bod nhw'n dangos hwnna hefyd de. Ond hefyd be sy gyda ni i helpu ni wneud hwnna de yn Hywel Dda a dros y GIG i gyd yw nhw 'di creu dim swydd ond rôl newydd i'r execs a enw rôl 'na yw Fraud Champion a ma'r Fraud Champion fod helpu ni fel adran i neud yn siŵr bod y top down approach 'na yn gweithio yn y bwrdd iechyd a mae ‘nhw 'ma i helpu ni os ma' unrhyw probleme ac os ni'n gweld ni'n teimlo bod ryw service lead ddim cweit yn cymryd mlaen beth ni'n gweud.

Ma' rhywun gyda ni'n mynd ato er mwyn helpu ni cael y neges 'na drosto.
Yn Hywel Dda, yr Fraud Champion yw rhywun o enw Joanne Wilson. Hi yw'r Board Secretary, y director of governance.

So mae'n hi’n eitha uchel lan yn y tsiaen 'de. Yn rywun eitha senior a hefyd oedd Joanne yn arfer bod ar yr LCFS (Local Counter Fraud Specialist) flynyddoedd yn ôl.

So ma' nhw'n mynd o LCFS lan y structure i wneud beth ma' hi'n wneud heddi. A ma' hi yn real champion i ni. Ma'n helpu ni, ie, lot a wedyn i gweithio mewn partneriaeth gyda'r director of finance, wedyn i pwy fi'n reportio i yym a nhw gyda’u gilydd yn tipyn o force er mwyn helpu ni cael y neges 'na drosto.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Ia ma' 'na ddau deitl swydd digon bygythiol yn fa'na, o'r Director of Finance a'r Board Secretary, yr Director of Governance yn dod ar dy ôl di os ti'm yn bihafio.

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ma' fe a ma' ma'r ddou ohonyn nhw yn nhw yn ie grêt yn helpu ni fel adran i cael pwynt ni ar draws, enwedig gyda'r risg a'r newidiadau dros gweud y 5 mlynedd diwethaf. Ble mae'r risg wedi bod mwy a mwy bwysig a mae o'n fwy a mwy o ran o beth ni'n wneud dydd i dydd de.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
A ma' hwnna wedyn yn arwain i rhan o'n gwaith ni fel sefydliad ydi darparu ymddiriedaeth i'r cyhoedd bod pres gyhoeddus yn cael ei wario'n gyfrifol ac yn briodol.

A ma' atal tywyll yn rhan o hynny dydy. Ac mai'n  bwysig wedyn bod y cyhoedd yn medru ymddiried fod 'na waith yn mynd ymlaen fel ti'n sôn i atal tywyll a ballu.

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ma' raid i'r cyhoedd gael y ffydd bod ni'n wneud y peth iawn yndyfe.

Eto un o'r swydd mwya ni yw i wneud yn siŵr bod ni'n cael hwnna mas na bod ni'n dangos bod ni'n rhoi hyder i pobl de bod ni ma' rywun ma' i trial stopo arian mynd ie i'r llefydd anghywir de ie a mynd i'r lle iawn.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**

Ti 'di cyffwrdd dipyn ar hyn yn ystod y sgwrs 'ma lle os 'sa unrhyw dueddiadau newydd ym myd tywyll ddylai pawb fod yn ymwybodol ohonyn nhw?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Yr un mwya newydd yw'r polygamous working ni' 'di siarad ambiti hwnna yn barod hefyd beth ni'n gweld yn enwedig nawr dros Nadolig a felly tibod fel ma'r byd nawr, ma'r beth sy'n mynd mlaen yn y Middle East, ma' hwnna'n pwsio prisie pethau lan, so mewn amser o economic hardship de, ni'n hefyd gweld mwy o trosedd sy'n cael ei cre- wneud er mwyn creu arian. A ma' hwnna'n beth ni'n gweld yn y bwrdd iechyd de yw mwy o'r trosedd i ni gyda fatha fel working while sick a beth ni'n wneud bach o data analytics ni'n disgwyl gweld hwnna nawr yn mynd yn fwy yn y misoedd nesa.

So sut gallen ni stopio hwnna sut gallen ni wneud yn siŵr bod staff yn wneud y dewis iawn? Un ffordd o'n i'n wneud ni yw nawr rili pwysleisio beth yw'r rheolau o ran cael ail swydd, pryd ma' raid ti gweud i'r Bwrdd Iechyd ma' ail swydd gyda ti, a beth dyle ti wneud os chi bant o gwaith yn cael sick pay.

Hefyd pa cwestiynau dyle ti gofyn a pwy sgyrsiau dyle chi cael gyda'r line managers er mwyn sicrhau bo' chi ddim yn cwympo mewn i'r trap o trosedd de a

wneud beth ni'n galw working while sick ie so ma' fe'n rili bwysig bod ni'n adran yn pwysleisio beth ddyle staff wneud, the do's and the don'ts.

So o ran hynny, yn Hywel Dda, y do's bydd bod chi'n gweud i'r line manager bod ail swydd gyda chi, chi'n trafod hwnna, chi'n wneud asesiad o beth yw'r risks i wneud gyda'r ail job 'na a wedyn chi'n wneud siŵr chi'n gweithio in line gyda'ch contract chi a'r polisys lleol sy gyda ni mewn lle o ran secondary employment.

Beth ni'n trio mynd i trio pwysleisio i staff yw beth sy'n rili bwysig yw bod chi'n cael y sgwrs 'na a pan chi'n cael y sgwrs ma'n rili anodd i rywun gweud i ni bod chi 'di bod yn dishonest.

Os chi'n open a chi'n cael y sgwrs yna hyd yn oed os dach chi'n wneud y peth rong ond neu ma' fe'n mynd rownd ma'n mynd lawr rhewl sydd ddim yr y rhewl iawn bo' chi 'di cael y sgwrs yna mae'n dangos bod chi'n ie be chi dach chi'n trial de.

Ond ie trafod e'n rili bwysig.

O ran threts eraill de i fi yn lleol amser hyn y flwyddyn ni'n dechrau paratoi nawr am y annual work plan blwyddyn nesa a beth ni'n bwriadu wneud a i fi ma' tipyn o newidiade dros y flwyddyn dwetha wedi bod yn y adran procurement: Ma' lot o newidiade i'r procurement legislation yym enwedig rownd beth ni'n galw due diligence a beth dyle ni wneud i sicrhau bod ni'n neud pethe iawn ar yr amser iawn ynde?

So o ran 'ny byddwn ni nawr rili yn cael focus ar risks i wneud gyda procurement a byddwn ni'n wneud asesiad o ran beth sy gyda ni ar y foment i wneud yn siŵr bod trosedd ddim yn digwydd de ia a beth sydd angen roi mewn lle a wedyn 'ny byddwn ni'n trefnu sut gallwn ni wneud hwnna gyda'r adran procurement gyda internal audit i wneud yn siŵr bod beth ni'n wneud yn effeithiol a ddim yn rhoi gofnod o gwaith i'r front line staff ia.

A beth gallwn ni wneud sy'n automated hefyd.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Ia a mynd nôl mewn cylch taclus iawn yn fan'na efo gwneud yn siŵr bod twyll yn cael ei atal cyn iddo fo ddigwydd, ond peidio creu gwaith ychwanegol i bobl sydd ddigon prysur yn barod.

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Bydden ni byth yn cael gwared a twyll. Bydd e wastad yn wastad 'na am byth gellir ni wneud i wneud e mor anodd ni'n gallu i rywun wneud y twyll 'na ar y GIG.

A job ni yw ‘reduced to an absolute minimum’ 'de. 'Na beth yw un o'r standards fi'n credu ie. Achos ma' fe wastad yn newid, ma’ rhaid i chi newid gyda’r un pace wedyn hefyd.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Achos dach chi wastad yn rasio.

A ma' hwnna'n dod a ni wedyn; pa sgiliau a cymhwyseddau fysa angen ar y sector cyhoeddus os oes rywbeth rywbeth ti am sôn amdano fo'n barod 'lly?

Os bod ni'n gweud rywbeth i datblygu de, ie ma' angen cymysgedd o lythrennedd digidol, sgiliau dadansoddeg data, dealltwriaeth, AI sgiliau ymchwilio a llywodraethu moesegol.

Ma' cynlluniau Llywodraeth Cymru yn pwysleisio hyfforddiant a datblygu gweithlu a wy'n credu ma' hwnna'n rili rili bwysig hefyd.

Ma'r NHS counter forward authority hefyd yn pwysleisio dadansoddeg uwch a modelu senarios yn arbennig wrth symud tuag at ddull rhagweithiol o leihau risg de.

So beth o'n i'n gweud o'r dechrau oedd ydy prevent ia a fi'n credu os ma' un ardal sy'n mynd i fod angen mwy o ffocws, lle mae angen i falle gael mwy o ddealltwriaeth yw'r prevent. Ie, a fel wedes i gynny ma' angen bach o mindset switch.

Pan chi'n dod i prevent beth sy'n mynd i fod yn bwysig wrth fynd mlaen yw bod yn gallu dangos gwerth o wneud y gwaith 'na. Ma'n eitha' rhwydd dangos weithiau; gweud nawr ma' chi'n wneud gwaith mewn i trosedd o dwyll o £5000: Ti'n wneud cyfweliad chi'n cael y wybodaeth ti angen er mwyn wneud cyfweliad ni'n mynd i'r CPS, y Crown Prosecution Service, wedyn gyda ffeil i gweud ni'n meddwl dyle hwn mynd i'r llys.

Mae'n mynd i'r llys, ma' rywun yn cael ei ffeindio'n euog a ni'n cael y £5000 ni nôl wrthon nhw.

So maen nhw'n hawdd dangos i pobl bod gwaith ni wedi safio £5000. Gyda gwaith bach mwy proactive ma' hwnna'n anodd bach mwy anodd i dangos y ffaith bod ni'n safio'r arian 'na.

Ma' plan yn ei le er mwyn i ni dangos hwnna, dangos y value o'r gwaith 'na yym ond ma'r value dim jyst yn dod o'r arian, mae'n dod o'r efficiencies, mae'n dod o'r lleihau errors, mae'n dod ie mewn sawl ffyrdd.

Ma'n bwysig bod ni wedi 'ny pan ma' rywbeth dda yn digwydd bod ni'n gwerthu hwnna dim jyst i'r i'r GIG, i'r cymuned hefyd. Ni'n dangos gwerth ni trwy beth ni'n wneud a rili pwysleisio pam ni'n wneud pethau hefyd de.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Ia achos os ti'n atal y tywyll rhag digwydd ti isio medru dangos faint o dywyll sy 'di atal rhag digwydd; dan ni 'di dal nhw cyn i ni gymeradwyo'r taliad neu be bynnag do.

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ie a ma' hwnna'n sort of balancing act yn ei hunan. So chi moyn gweud beth yw gwendid. Sso bydd pobl yn trio tibod pan chi'n gweud beth yw gwendid lle bydd pobl yn defnyddio hwnna yn erbyn ti, yn enwedig pobl sy'n moyn wneud twyll yn erbyn y GIG.

Mae'n bwysig pryd i ni wneud hwnna hefyd. Os ni yn rhoi'r stori mas 'na beth ni'n wneud; ni'n eitha siŵr i ni bod y controls ni yn lle so gall rhywun ddim copïo beth wedi digwydd, neu os bod nhw'n copïo, bydden ni'n gallu stopio fe hefyd.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Da' chi'n sôn am y twll ar ôl i chi i gau o felly?

Dwi'n teimlo bod ni yn dod i yn dod i gylch bach taclus yn fan'na o ran bod yn wyliadwrus. Cadw llygad allan am y tyllau, llenwi'r tyllau.

Peidio rhoi cyfle i bobl dwyllo a gwneud hi'n anodd gwneud camgymeriadau a ballu.

Oes gen ti unrhyw negeseuon allweddol, unrhyw soundbites i ni i'n gadael ni?

**Be Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ie, peth bydden i'n gweud yw ma' pobl yn tueddu i feddwl am fraud neu twyll fel victimless crime. 'Na beth ma' ti'n tueddu i clywed yn y media, ma'n effeithio'r bancs, dim arian ni yw hwnna de.

Beth fydden ni yn gweud o ran twyll yn y GIG neu tibod yn y cyngor lleol yw ma' fe'n effeithio pawb. Mae'n tynnu arian oddi wrth gwasanaethau rheng ac wedyn 'ny oddi wrth y pobl fwyaf bregus yn yr cymuned.

Ond beth bydden ni yn gweud achos 'ny, bydden ni'n gweud bod atal twyll yn gyfrifoldeb i ni gyd fel cymuned, fel pobl sy'n gweithio i'r GIG ac hefyd pobol sy'n defnyddio fe de yn Cymru.

Trwy weithio gyda'n gilydd, defnyddio'r data data'n yn ddoeth de, cofleidio technoleg yn foesegol a chodi ymwybyddiaeth so gallen ni ie gweithio gyda'n gilydd er mwyn cael yr un gôl, a'r gôl 'na yw i wneud yn siŵr bod pobl ddim yn wneud trosedd yn erbyn yr GIG de.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Yn y pen draw dan ni gyd isio byw mewn lle neis does?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Os ma' rywbeth yn digwydd ni, ni gyd moyn gwybod bod rywun yna i helpu ni.

Beth ni ddim yn disgwyl yw bod pawb mas na heddiw yn gwbod yn union beth i edrych amdano. So ni ddim moyn pobl gweud "o ma' hwnna yw section two of the Fraud Act fraud by false repsentation a'r points to prove".

Beth ni moyn in the ideal world yw i bobol os ma' nw'n gweld rwbeth sydd ddim cweit yn iawn ne' nw'n meddwl bod dyle hwnna ddim yn digwydd, bo' nw gyda'r hyder i 'weud i rywun sy'n bod e, bo' nw'n ffono hwnna mewn.

So o ran hwnna, sut galle pobol dweud i fi bo' trosedd yn digwydd neu ma' rywbeth yn digwydd yn y bwrdd iechyd? Gall unrhyw un mynd ar-lein a gallu mynd i'r wefan www.cfa.nhs.uk/reportfraud. Acshyli ma' ffordd rwyddach; mynd i Google a gwglo report nhs fraud eith di trwyddo i'r Counter-fraud website o fan'na wedyn ni gallu jyst reporto rywbeth.

Chi'n rhoi manylion chi mewn, neu ti'n gallu wneud e yn anonymous, rhoi'r gwybodaeth chi moyn rhoi mewn a bydd nhw'n hala fe mlaen i ni wedyn 'ny.

Hefyd ti'n gallu reporto trwyddo Crimestoppers. Rhoi gwybodaeth i nhw a bydd nhw'n hala fe i ni.

Ond os ti'n gweithio i'r Bwrdd Iechyd neu yn y GIG Cymru ti'n gallu mynd ar yr intranet a edrych am dy adran atal twyll lleol a reporto drwy hala negeseuon mlan ata nhw.

Beth dyle ni wedi gweud ar y dechre beth ydyn ni'n wneud gyda'r gwybodaeth 'na.

Fel adran gellen ni naill ai wneud gwaith ymchwil; beth ni'n galw'n criminal investigation to the standard of prosecution. Moyn gweud nawr bod ni'n sôn ni'n sdim hawl 'da ni i gweud pwy sy'n cael pwy sy'n charged to court so to speak. Mae popeth ni'n wneud yn mynd trwy'r Crown Prosecution Service a nhw sy'n gweud os ma' rhywun yn mynd mlaen i'r llys neu ddim.

Ond hefyd fel wedes i bod gen ti proactive work ar risg a rhan fwya o fy job fi nawr yw wneud asesiad o ran beth yw'r ris i'r Bwrdd Iechyd, pan ni'n cael y gwybodaeth 'na wrth pobl, os dan ni'n meddwl fod 'na dim digon o tystiolaeth 'na i ddangos bod trosedd wedi digwydd, weithiau ma' be sy 'di cael ei roi yn y wybodaeth sy'n cael ei roi i ni yn dangos falle fod gwendid rywle, a achos ni ni'n defnyddio'r gwybodaeth 'na er mwyn creu gwaith sy'n mynd i testio'r controls yn y ardal 'na de.

So ma' pob pisyn o gwybodaeth yn help enfawr i ni i wneud ein swydd ni a os dyw e ddim yn trosedd allwn ni basio fe mla'n i adran arall lle allwn ni

ddefnyddio'r gwybodaeth 'na er mwyn sicrhau bod ni'n trin y gwendid sy yn yr adran 'na.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Felly os 'di rhywun yn gweld rywbeth sydd ddim yn edrych cweit yn iawn, yna mi fyddan ni, mi wnawn ni roid links yn y nodiadau sy'n dod efo hwn, rhag ofn fod chi yn gwrando ar y podlediad ac wedyn isio adrodd o. A wedyn mi wnewch chi wedyn fynd a sbïo fewn a gweld os oes 'na rywbeth yna a cario mlaen 'lly?

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Ie a 'na beth ni wastad yn gweud os so'n i'n gwbod amdano fe so ni ffili wneud dim byd ia amdano fe wedyn 'ny a 'na beth sy'n rili bwysig a fel adran eto un o prif swydd ni bydd i nydjo pobl i wneud y pethau iawn ar yr amser iawn a ma' hwnna'n rili bwysig achos ma' 99% o pobl mas 'na moyn wneud y pethau iawn a mae'n bwysig bod ni'n rhoi cyfle i pobl wneud y pethau iawn hefyd.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
Ac yn fanna ar y neges, ie, obeithiol yna bod ni isio pobl wneud y pethau iawn.

Dwi'n meddwl bod o'n lle taclus iawn i ni i ddod at y diwedd.

**Ben Rees (Bwrdd Iechyd Hywel Dda)**
Wel, diolch yn fawr iawn.

**Sion Owen (Archwilio Cymru)**
A diolch i chdi a diolch yn fawr iawn i chdi am dy amser.

Ac am rannu dy wybodaeth.

**Rhian Jones (Archwilio Cymru)**
Diolch am wrando ar y bennod hon o bodlediad y gyfnewidfa. Os wnaethoch chi fwynhau'r bennod, cofiwch danysgrifio trwy'ch darparwr podlediadau i ddal pennodau'r dyfodol.

Byddai adolygiad cyflym a rhannu gyda'ch ffrindiau neu'ch cydweithwyr yn golygu llawer i ni.

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar nodiadau'r bennod. Mae'r holl ddolenni a manylion cyswllt yno.

Gallwch hefyd fynd draw i'n gwefan archwilio dot Cymru
os oes gennych gwestiynau neu sylwadau, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.